ABOUT US

Rhew

Eisteddwn yng nghynhesrwydd ein tân agored
yn hudo ein hangen i fyw am heddiw.

Ein trwmgwsg ar y soffa swmpus eisoes ar gost carbon cenedlaethau ac yn dawel,
yn ddiwyd,
bu'r fflamau cynnes yn anwesu haenau o rew i ddŵr dwfn y môr.

Tician di-derfyn y cloc ben tân yn gwawdio ein difaterwch a throi rhewfrig yn rhidyll -
a ninnau'n ddall i'w ddirmyg.

Dihunwn yn nhywyllwch oer ein hystafell
â'r lludw llwyd yn mygu ein dyfodol.

Meredydd Davies, Deg Uchaf, cystadleuaeth Amdanom Ni

THEPOETRYSOCIETY STEMettes 59 fifty nine productions